

STRATEGAETH TAI POBL HŶN

Bro Morgannwg

2022-2036



Creu Cartrefi a Chymdogaethau ar
gyfer Hwyrach Mewn Bywyd

Rhagair

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Rwy'n falch iawn o gyflwyno'r Strategaeth Tai Pobl Hŷn ar gyfer Bro Morgannwg.

Mae nifer cynyddol o bobl hŷn ar draws Bro Morgannwg ac mae llawer o bobl hŷn yn wynebu heriau cynyddol wrth iddynt fynd yn hŷn. Mae ystadegau'n dweud wrthym fod pobl hŷn yn fwy tebygol o brofi dirywiad yn eu symudedd, yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan nam ar y synhwyr, clefydau cronig, a bregusrwydd, sy'n golygu bod angen cymorth mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae hyn yn amrywio o fân addasiadau i allu parhau i fyw'n gyfforddus yn eu cartref eu hunain, i fod angen symud i lety mwy arbenigol.

Mae tai anaddas yn cael effaith sylweddol ar iechyd corfforol a meddyliol pobl hŷn. Mae'n effeithio ar annibyniaeth bersonol, lles a hapusrwydd. Mae person hŷn sy'n byw mewn eiddo gyda llawer o risiau heb ystafell ymolchi hygyrch yn fwy tebygol o gwmpo neu gael ei gyfyngu i fyw mewn un rhan o'i gartref. Gall pobl hŷn sy'n byw i ffwrdd o deulu a ffrindiau neu heb fynediad at rwydweithiau cymorth neu weithgareddau cymdeithasol brofi allgáu cymdeithasol ac unigedd.

Felly, mae'n bwysig sicrhau bod gan bobl hŷn gartrefi addas i fyw ynddynt, i sicrhau a chynnal eu hannibyniaeth, lleihau anghydraddoldebau iechyd a bod gan bobl hŷn fynediad at wasanaethau gofal sy'n ddigon hyblyg i fodloni'r gwahanol ddewisiadau y bydd pobl hŷn yn eu gwneud yn gynyddol.

Mae'r Strategaeth hon a'r argymhellion arfaethedig wedi'u cynllunio i ymateb i anghenion y boblogaeth oedolion hŷn nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Strategaeth hefyd yn cefnogi nodau Cynllun Corfforaethol y Cyngor a sawl dogfen strategol bwysig arall, gan gynnwys y Strategaeth Tai Lleol, y Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hŷn, a'r Cynllun Comisiynu Grant Cymorth Tai.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn cefnogi'r Strategaeth hon drwy gydweithio i ddarparu amrywiaeth o opsiynau tai fforddiadwy a deniadol o ansawdd i alluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol ar draws Bro Morgannwg.



Y Cyngorydd Margaret Wilkinson

Aelod Cabinet dros Dai a Chynnwys Tenantiaid



Mae'r Strategaeth Tai Pobl Hŷn hon yn amlinellu sut bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn galluogi ac yn darparu tai a gwasanaethau cysylltiedig i bobl hŷn sy'n diwallu amrywiaeth o anghenion a dyheadau, a sut gall y ddarpariaeth hon helpu i gyflawni blaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Ein gweledigaeth yw sicrhau'r ansawdd bywyd gorau ar gyfer pobl hŷn sy'n byw yn y Fro a galluogi pobl hŷn i fyw mor annibynnol ag sy'n bosib yn ddiweddarach yn eu bywyd. Golyga hyn ddarparu amrywiaeth o lety sy'n galluogi pobl hŷn i fyw bywydau boddhaus a mwynhau iechyd da mewn cartrefi deniadol sy'n diwallu eu hanghenion ac yn caniatáu iddynt gadw eu hannibyniaeth wrth iddyn nhw heneiddio.

I wireddu'r weledigaeth hon, bydd y Cyngor yn:

- Adolygu ei wasanaethau tai gwarchod, gan gynnwys ymgynghori â phreswylwyr, i sicrhau bod darpariaeth y cyngor o wasanaethau tai i bobl hŷn yn adlewyrchu safonau cyfoes a fydd yn ddeniadol i drigolion presennol ac yn y dyfodol. Bydd y cyngor yn annog landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lleol i adolygu eu gwasanaethau tai gwarchod.
- Galluogi datblygu tai cyfoes newydd sy'n addas i bobl hŷn a mwy o dai gofal ychwanegol ym mhob un o'r tair ardal yn y Fro.
- Mynd ati i ddatblygu pentref ymddeol/pentref gofal ym Mhenarth.
- Defnyddio polisi cynllunio i annog darparwyr tai preifat a chymdeithasol i ddatblygu amrywiaeth o dai prif ffrwd sy'n addas ac yn ddeniadol i bobl hŷn.
- Gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac adeiladwyr tai preifat i ddatblygu cyflenwad o gartrefi newydd wedi'u haddasu, hygyrch ac wedi'u hadeiladu'n bwrpasol a all ddiwallu anghenion pobl hŷn, gan gynnwys ystod o opsiynau deiliadaeth.
- Ystyried sut i ehangu gwasanaethau gwybodaeth a chynghori dewisiadau tai wedi'u hanelu at bobl hŷn.
- Ystyried sut y gall gynyddu nifer y bobl hŷn y gellir eu cefnogi i wneud addasiadau i'w cartrefi presennol i helpu i gynnal eu hannibyniaeth.
- Gyda'i bartneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ystyried opsiynau ar gyfer datblygu tai dan arweiniad y gymuned wedi'u hanelu at bobl hŷn.
- Manteisio ar y cyfle newid digidol 2025 i wella'r ystod o opsiynau teleofal sydd ar gael i bobl hŷn, y tu mewn a'r tu allan i'w cartref trwy ddefnyddio ystod ehangach o offer digidol.
- Gwneud defnydd pellach o dechnoleg ddigidol gynorthwylol i ddarparu cymorth i alluogi pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi.
- Ceisio datblygu rôl tai wrth gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty lle bo'r lleoliad yn briodol. Fel rhan o'r dull hwn bydd y Cyngor gyda'i bartneriaid GIG yn adolygu'r defnydd o'r unedau cam i lawr presennol yn y cynllun tai gwarchod yn y Bont-faen.

Crynodeb Gweithredol (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

- Gyda'i bartneriaid yn y GIG ystyriwch y cyfle i gydleoli staff iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer cynlluniau tai ar gyfer pobl hŷn ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Cefnogi a datblygu gwasanaethau rhagnodi cymdeithasol pellach, a fydd yn cefnogi pobl hŷn sy'n byw mewn tai prif ffrwd a thai arbenigol.



Cynnwys

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Rhagair	2
Crynodeb Gweithredol	3
1. Cyflwyniad	6
2. Ein gweledigaeth ar gyfer tai i bobl hŷn yn y Fro	7
3. Ein poblogaeth hŷn	9
4. Cyd-destun Strategol	10
5. Barn a safbwyntiau pobl hŷn a rhanddeiliaid eraill	13
6. Galw am dai i bobl hŷn	16
7. Casgliadau ac Argymhellion	19
Mae gan Fro Morgannwg dair ardal	19
Casgliadau ac argymhellion	20
Argymhellion: Ardaloedd lleol	25
8. Cynllun gweithredu	31



1 Cyflwyniad

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Mae'r Strategaeth Tai Pobl Hŷn hon yn amlinellu sut bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn galluogi ac yn darparu tai a gwasanaethau cysylltiedig i bobl hŷn sy'n diwallu amrywiaeth o anghenion a dyheadau, a sut gall y ddarpariaeth hon helpu i gyflawni blaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Fel mewn mannau eraill yng Nghymru a'r DU, mae poblogaeth Bro Morgannwg yn heneiddio. Dangosodd y cyfrifiad diweddaraf fod poblogaeth y Fro sydd dros 65 oed wedi gweld yr ail gynnydd canrannol mwyaf yng Nghymru rhwng 2001 a 2021, gan gynyddu 24.9%¹. Mae disgwyl cynnydd tua 27% erbyn 2036. Mae gan boblogaeth heneiddio Bro Morgannwg oblygiadau o ran ble mae pobl yn byw a sut y cânt eu cefnogi i aros yn annibynnol a byw'n dda yn ddiweddarach mewn bywyd.

Er bod llawer o bobl hŷn (58%) ym Mro Morgannwg yn byw mewn iechyd da dim ond 50.2% ym Mro Morgannwg sy'n byw heb salwch cyfyngus hirdymor². Mae tystiolaeth iechyd cyhoeddus³ yn nodi mwy o achosion o gyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran megis symudedd neu nam ar y synhwyrâu, bregusrwydd a chlefydau cronig ymhlith y boblogaeth hŷn, sy'n awgrymu bod mwy o bobl hŷn yn debygol o fod angen llety arbenigol a/neu ofal a chefnogaeth i barhau i fyw yn eu cartrefi presennol.

Mae Strategaeth Tai y Cyngor⁴ yn pwysleisio'r angen am dai sy'n galluogi pobl hŷn i aros yn annibynnol, er enghraifft, drwy ddarparu tai fforddiadwy ac addas o ansawdd uchel.

Mae'r Cyngor am sicrhau bod pobl hŷn yn y Fro yn gallu manteisio ar dai a gwasanaethau cymorth a gofal cysylltiedig sy'n eu galluogi i fyw'n annibynnol yn hwyrach yn eu bywyd nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r strategaeth hon yn nodi'r hyn sydd ei angen yn y Fro a sut y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i greu cartrefi a chymdogaethau am oes i ddinasyddion hŷn.

¹Cyfrifiad Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021

²Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd. www.icc.gig.cymru. [Ar-lein] [Dyfynnwyd: 29 10 2021.] <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/arsyllfa/data-a-dadansoddi/fframwaith-canlyniadau-iechyd-y-cyhoedd/>

³ Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd. www.icc.gig.cymru. [Ar-lein] [Dyfynnwyd: 29 10 2021.] <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/arsyllfa/data-a-dadansoddi/fframwaith-canlyniadau-iechyd-y-cyhoedd/>

⁴Cyngor Bro Morgannwg Strategaeth Tai Lleol 2021-2026 (Drafft)

2 Ein gweledigaeth ar gyfer tai i bobl hŷn yn y Fro

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Ein gweledigaeth yw sicrhau'r ansawdd bywyd gorau ar gyfer pobl hŷn sy'n byw yn y Fro a galluogi pobl hŷn i fyw mor annibynnol ag sy'n bosib yn ddiweddarach yn eu bywyd. Golyga hyn ddarparu amrywiaeth o lety sy'n galluogi pobl hŷn i fyw bywydau boddhaus a mwynhau iechyd da mewn cartrefi deniadol sy'n diwallu eu hanghenion ac yn caniatáu iddynt gadw eu hannibyniaeth wrth iddyn nhw heneiddio.

■ Sut y byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth

Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy'r canlynol:

Cymorth i aros yn eu lle

- Sicrhau'r cyfleoedd gorau i bobl hŷn aros yn eu cartref presennol wrth iddynt heneiddio drwy gynyddu faint o dai sydd ar gael sydd wedi'u cynllunio i fod yn hyblyg ac yn addasadwy.
- Cefnogi pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi drwy ymestyn darpariaeth cymhorthion ac addasiadau; cydnabod y bydd galw cynyddol am addasiadau, fel disodli ystafelloedd ymolchi gan ystafelloedd gwlyb, er mwyn galluogi hyn i ddigwydd.
- Sicrhau bod gofal a chymorth hyblyg a phersonol i alluogi pobl i fyw'n annibynnol cyhyd ag y bo modd wrth i'w hanghenion gofal newid gydag oedran.

Symud i dai sy'n fwy addas ar gyfer anghenion yn ddiweddarach mewn bywyd

- Gwella'r ystod o dai o ansawdd da sydd ar gael, tai prif ffrwd sydd wedi'u cynllunio i fod yn ddeniadol i bobl hŷn a thai arbenigol sydd wedi'u dynodi o ran oedran. Gellir disgrifio rhywfaint o hyn fel tai 'gofal barod' i'w rhentu ac i'w gwerthu, h.y. heb ofal ar y safle, ond wedi'i gynllunio i alluogi pobl i heneiddio yn eu lle, er mwyn caniatáu llai o symudedd a chaniatáu i unigolion gael gofal yn hawdd yn eu cartrefi eu hunain pe bai angen hynny. Gall y cynnig tai hwn amrywio o ran maint a graddfa gan ei wneud yn addas ar gyfer lleoliadau trefol a gwledig.
- Galluogi tai sy'n addas ar gyfer anghenion pobl hŷn ac sy'n fforddiadwy i ystod eang o bobl, gan gynnwys tai i'w gwerthu ac ar rent cymdeithasol. Mae lle i brofi dewisiadau tai a modelau perchnogaeth newydd ar gyfer pobl yn ddiweddarach mewn bywyd, gan gynnwys defnyddio cydberchnogaeth wedi'i dargedu at bobl hŷn.



2 Ein gweledigaeth ar gyfer tai i bobl hŷn yn y Fro (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

- Ehangu'r ystod o dai ag opsiynau gofal, fel tai gofal ychwanegol a phentrefi ymddeol, ar gyfer y rhai y mae angen ac eisiau'r opsiwn hwn arnynt.
- Nodi cynlluniau tai gwarchod presennol y gellir eu gwella i fod yn fwy deniadol ac i gefnogi heneiddio'n well yn eu lle ar gyfer poblogaeth hŷn gynyddol ag anghenion gofal a chymorth cynyddol.

Hyrwyddo cysylltiadau cymunedol ac amrywiaeth tai

- Cefnogi cymunedau a chymdogaethau i gynnal a hwyluso ffyrdd iach o fyw a chysylltiadau cymdeithasol.
- Cydnabod anghenion yr holl bobl hŷn ledled y Fro gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig.
- Darparu gwybodaeth a chyngor cynhwysfawr mewn cysylltiad ag opsiynau tai i bobl hŷn sy'n galluogi pobl hŷn a'u teuluoedd i fod yn wybodus am gynllunio symudiadau yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i greu hinsawdd lle mae symud yn ddiweddarach mewn bywyd yn dod yn ddewis realistig a chadarnhaol i'r rhai sy'n dymuno neu sydd angen symud i ddiwallu eu hanghenion tai a gofal/cymorth.

Integreiddio iechyd a gofal tai

- Datblygu model pentref ymddeol sy'n briodol i'r Fro, gyda llawer o unedau tai â gwahanol ddeiliadaethau, ystod eang o gyfleusterau a gwasanaethau gofal ac iechyd ar y safle, er enghraifft rydym yn datblygu'r math hwn o wasanaethau tai, gofal ac iechyd integredig ym Mhenarth.
- Ystyried datblygu fersiwn lai o dai gofal ychwanegol a allai gynnwys datblygiad adeiladu newydd ar raddfa lai ac ailgynllunio rhai cynlluniau tai gwarchod priodol i gynnwys darpariaeth gofal ar y safle neu 'hyb' gofal ac iechyd a all gefnogi pobl sy'n byw yn y gymuned gyfagos. Dyma gyfle i ddod â gwasanaeth tai integredig gyda gofal i fwy o leoliadau gan gynnwys ardaloedd gwledig, er enghraifft yng Ngorllewin y Fro.
- Cydnabod bod newid cenhedlaeth ar y gweill, a bod ac y bydd pobl hŷn yn dod yn fwyfwy soffistigedig wrth ddefnyddio technoleg a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae cyfle i wneud cartrefi'n fwy clyfar yn dechnolegol ac i wneud y defnydd gorau posibl o dechnoleg, gan gynnwys teleofal, i wella iechyd ac annibyniaeth unigolion.



3 Ein poblogaeth hŷn

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Nid yw 'pobl hŷn' yn grŵp homogenaidd, nid oes person hŷn ystrydebol. Mae 'pobl hŷn' yn cynnwys pobl o sawl cenhedlaeth, gwahanol gefndiroedd, galluoedd, ethnigrwydd, rhywioldeb a rhyw. O'r herwydd, rydym yn ystyried pobl hŷn yn ased i'n cymunedau a'n cymdogaethau.

Er bod rhai wedi ceisio diffinio 'henaint', nid oes un diffiniad nac oedran a dderbynnir yn gyffredin lle mae pobl yn mynd yn 'hen'.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn diffinio 'pobl hŷn' fel unrhyw berson 60 oed neu hŷn. Er mai oedran Pensiwn y Wladwriaeth Cymru yw 66 oed ac er mwyn cael ei ystyried ar gyfer tai gwarchod yn y Fro mae angen i berson fod yn 60+ oed neu 50+ gyda chyflwr meddygol â diagnosis.

Mae data'r rhestr aros tai cymdeithasol (Rhestr Aros Gyffredin) yn categoreiddio ymgeiswyr 60 oed neu hŷn yn 'oedrannus' ac yng Nghymru mae buddion cymdeithasol fel teithio am ddim ar fysiau a chonsesiynau ar drafndiaeth gyhoeddus yn dechrau ar 60 oed.

Nid yw Cymru o Blaid Pobl Hŷn yn diffinio 'pobl hŷn' yn fwriadol ac mae'n cydnabod bod profiadau bywyd a realiti dyddiol yn amrywio'n fawr i bobl yn eu 50au i'r rhai yn eu 80au neu hŷn.

Er nad yw'n ymddangos bod diffiniad cyffredin neu gyffredinol o 'berson hŷn', at ddibenion y strategaeth hon rydym yn defnyddio 60 oed neu hŷn wrth edrych ar anghenion tai pobl hŷn. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion amrywiol pawb a allai gael eu hystyried yn 'berson hŷn'.

Mae gan Fro Morgannwg boblogaeth sy'n heneiddio; gwelodd yr ail gynnydd canrannol mwyaf yng Nghymru yn y grŵp 65+ gyda chynnydd o 24.9% rhwng 2001 a 2021. Mae hyn o'i gymharu â chynnydd o 17.7% o bobl 65+ oed ar gyfer Cymru.⁵

Mae mwyafrif yr aelwydydd dros 65 oed ym Mro Morgannwg yn berchen-feddianwyr (82%) gydag 11.9% yn byw mewn tai cymdeithasol a lleiafrif o bobl dros 65 oed yn byw yn y sector rhentu preifat (4.1%).⁶

Mae'r rhan fwyaf o bobl hŷn yn byw mewn tai 'prif ffrwd'; mae lleiafrif yn byw mewn mathau 'arbenigol' o dai megis tai gwarchod, tai ymddeol neu fathau eraill o dai dynodedig o ran oedran.

Mae'r twf a ragwelir yn nifer y bobl hŷn ag anghenion gofal cymhleth yn debygol iawn o arwain at fwy o bwysau ar y gwasanaethau iechyd a gofal. Er enghraifft, rhagwelir y bydd nifer yr oedolion hŷn sy'n byw â dementia difrifol yn dyblu erbyn 2040 yng Nghymru.

Wrth i bobl fyw'n hirach, mae'r angen am ofal a chymorth ychwanegol yn cynyddu gan fod mwy o bobl yn cael anawsterau gyda gweithgareddau o ddydd i ddydd.

⁵Cyfrifiad Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021

⁶StatsCymru. Amcanestyniadau Poblogaeth yn seiliedig ar Ragamcanion ALI 2008 yn 2011

4 Cyd-destun Strategol

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

■ Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae amrywiaeth o bolisiau a deddfwriaeth genedlaethol sy'n llywio amcanion y strategaeth tai pobl hŷn hon.

Mae **Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-23 Llywodraeth Cymru** yn cydnabod pwysigrwydd bod gan bobl hŷn yr adnoddau i heneiddio'n dda, gan gynnwys mynediad i dai a gwasanaethau sy'n cefnogi eu hanghenion ac yn hyrwyddo eu hannibyniaeth.

Mae **Rhaglen Waith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2022-24** yn canolbwyntio ar alluogi pawb i heneiddio'n dda ac yn ystyried bod tai sy'n cefnogi annibyniaeth yn allweddol i ddatblygu cymunedau sy'n dda i bobl hŷn.

Mae **Cymru O Blaid Pobl Hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio 2021** yn argymhell y dylai Cymru sy'n dda i bobl hŷn gydnabod cysylltiad rhwng tai ac iechyd, ac y dylid ystyried tai fforddiadwy o ansawdd da fel ymyrraeth ataliol.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, gan gynnwys pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor. Mae'n ofyniad dan y Ddeddf i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithio i asesu anghenion gofal a chymorth a darparu gwasanaethau integredig a chynaliadwy. Mae egwyddorion sylfaenol yn cynnwys cefnogi a mesur lles, llais a rheolaeth defnyddwyr gwasanaeth a ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar.



4 Cyd-destun Strategol (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** am wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus feddwl yn fwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio datrys problemau a defnyddio dull mwy cydlynol. Mae'r Ddeddf yn pennu 7 nod llesiant cenedlaethol ac mae gan dai da rôl allweddol i'w chwarae wrth gyflawni nifer o'r rhain, gan gynnwys cyflawni Cymru iachach a Chymru â chymunedau cydlynol.

Mae **Cynllun Gweithredu Dementia Cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2018-2022** yn gosod gweledigaeth i Gymru fod yn 'wlad sy'n deall dementia sy'n cydnabod hawliau pobl â dementia i deimlo eu bod wedi'u gwerthfawrogi ac i fyw mor annibynnol â phosib yn eu cymunedau'.

Mae **Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11** a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021 yn tynnu sylw at rôl y system gynllunio o ran darparu tai sy'n mynd i'r afael ag anghenion pobl hŷn. Mae'n nodi bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio nodi'n glir ofynion tai pobl hŷn yn eu cynllun datblygu a nodi lle y gallai fod angen ymyriadau i ddarparu'r cyflenwad tai hwn, gan gynnwys ar gyfer safleoedd penodol. Dylai awdurdodau cynllunio hyrwyddo adeiladu i Safonau Cartrefi Gydol Oes i fodloni gofynion pobl hŷn.

■ Y Cyd-destun Lleol

Ar lefel lleol, mae amrywiaeth o strategaethau a pholisïau sy'n llywio ac yn ategu nodau a blaenoriaethau'r strategaeth tai pobl hŷn hon.

Mae **Strategaeth Tai Lleol Cyngor Bro Morgannwg 2021-2026** yn cydnabod yr angen i sicrhau cyflenwad a chydbywysedd addas o fathau o lety i alluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol cyhyd â phosibl gyda mynediad at wasanaethau a chymorth priodol.

Mae **Cynllun Cyflenwi Grant Cymorth Tai 2022-2025** yn amlinellu'r angen i ddarparu cyflenwad digonol o fathau arbennig o dai i ddiwallu anghenion amrywiol pobl hŷn i sicrhau y gallant barhau i fod yn annibynnol gyhyd ag y bo modd mewn amgylchedd diogel a sefydlog.

Mae **Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Bro Morgannwg 2011-2026** yn cydnabod yr argymhellion ynghylch tai pobl hŷn o Rifyn 11 Polisi Cynllunio Cymru.

Mae **Strategaeth Dementia Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2028** yn nodi sut y bydd partneriaid ar draws y rhanbarth yn cydweithio i wella bywydau pobl â dementia a'u gofalwyr. Mae'n cydnabod rôl amgylcheddau sy'n deall dementia wrth wella bywydau pobl sy'n byw â dementia. Mae gwneud pob adeilad newydd yn addas i bobl â dementia, drwy weithio gyda chynllunwyr a dylunwyr, yn flaenoriaeth allweddol yn ogystal â galluogi ystod o opsiynau llety addas i bobl sy'n byw â dementia.

Mae **Strategaeth Comisiynu a Datganiad Sefyllfa'r Farchnad: Gwasanaethau Gofal a Chymorth ar gyfer Pobl Hŷn 2017-2022: Bwrdd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg** yn nodi sut bydd y Bwrdd Iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a phartneriaid eraill yn cydweithio i wella iechyd a lles pobl hŷn yn y rhanbarth. Y pwysntiau

4 Cyd-destun Strategol (parhau) Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

allweddol sy'n cysylltu iechyd, gofal a thai ac sy'n berthnasol i strategaeth tai pobl hŷn hon yw:

- Mae cydnabyddiaeth nad oes digon o dai priodol i bobl hŷn.
- Mae prinder opsiynau tai ar gyfer pobl hŷn y mae angen eiddo wedi'u haddasu arnynt.
- Mae pobl hŷn yn chwilio am wasanaethau iechyd, tai a gofal cymdeithasol integredig.
- Amcan allweddol yw 'galluogi pobl i fyw mor agos i'w cartref â phosibl mewn llety sy'n briodol i'w hanghenion a lle gallant fyw yn dda, ffynnu ac aros yn annibynnol.'

Mae **Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Bwrdd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg ar gyfer y Farchnad Gofal a Chymorth Gwasanaethau Cymdeithasol a Reoleiddir (2022)** yn cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol sy'n cysylltu iechyd, gofal a thai ac sy'n berthnasol i'r strategaeth tai pobl hŷn hon:

- Bydd angen comisiynu gwasanaethau arloesol sy'n seiliedig ar dai i ddarparu dewisiadau amgen i wasanaethau gofal traddodiadol.
- Yr angen i ddatblygu tai gyda chapasiti cymorth fel dewis arall yn lle gofal preswyl pobl hŷn ac i ohirio mynediad i ddarpariaeth gofal nyrsio.
- Y nod yw parhau i symud adnoddau o wasanaethau gofal preswyl cyffredinol i wasanaethau cymunedol. Bydd llawer o'r galw a ddiwallwyd yn flaenorol gan ofal preswyl yn cael ei ddiwallu gan ofal cartref, ond nid y cyfan. Bydd rhywfaint yn cael ei ddiwallu gan ddewisiadau eraill yn y gymuned a ddarperir gan bartneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, trwy'r model gofal integredig wedi'i leoli'n lleol '@gartref'.



5 Barn a safbwyntiau pobl hŷn a rhanddeiliaid eraill

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Rydym wedi defnyddio amrywiaeth o ymchwil a wnaed gyda phobl hŷn a rhanddeiliaid ledled y Fro i nodi beth mae pobl hŷn yn chwilio amdano o'u hopsiynau tai a chymorth yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae hyn yn cynnwys canfyddiadau allweddol o'r canlynol:

- Aseiad Tai a Llety Pobl Hŷn a gynhaliwyd gan y Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai (RhDG Tai) ar ran Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg yn 2018.
- Ymgysylltiad ansoddol a gynhaliwyd yn 2022 ag aelodau o'r fforwm 50+ a rhanddeiliaid lleol fel landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a sefydliadau'r trydydd sector.
- Ymchwil arall y mae'r RhDG Tai wedi'i gynnal gyda phobl hŷn ledled Cymru.

■ Safbwyntiau pobl hŷn

Mae ymgysylltu â phobl hŷn wedi nodi 3 thema allweddol sy'n sail i'r strategaeth hon:

● Fy Nghartref



"Lle rydych chi'n byw yw'r sylfaen i bopeth"

Mae llawer o bobl hŷn yn byw mewn cartrefi nad ydynt yn addas yn ddiweddarach mewn bywyd; gall yr eiddo fod yn rhy fawr, bod ag ystafell ymolchi i fyny'r grisiau yn unig, bod â nifer o risiau, galw am ddringo grisiau i gael mynediad iddo a/neu gael ei wasanaethu'n wael gan drafndiaeth gyhoeddus.

Mae pobl hŷn yn chwilio am ystod ehangach o ddewisiadau tai sy'n eu cefnogi i fyw'n annibynnol yn ddiweddarach mewn bywyd.

Gallai mwy o bobl hŷn ystyried symud os oedd ystod ddeniadol o ddewisiadau tai hygyrch a fforddiadwy.

Mae tuedd i ffafrio byngalos fel y math o dai, ond mae pobl hefyd yn chwilio am dai llai a byddai fflatiau gyda balconi yn ffafriol i rai.

Mae'r mwyafrif o bobl hŷn (60%) yn chwilio am eiddo gyda 2 ystafell wely pe baent yn symud; mae llawer o bobl eisiau i'w ffrindiau a'u teulu allu aros.

Mae angen tai fforddiadwy i'w rhentu ac i'w gwerthu sy'n addas ar gyfer anghenion pobl hŷn, yn enwedig mewn ardaloedd â chostau tai cymharol uchel.



"Rydw i eisiau cartref a all fy nghefnogi beth bynnag sy'n digwydd mewn bywyd, mae angen cartrefi arnom sy'n addasu i anghenion newidiol pobl. Mae tai hygyrch yn dda i bawb"



5 Barn a safbwyntiau pobl hŷn a rhanddeiliaid eraill (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

● Y gymuned rwy'n byw ynddi



"Mae teimlo'n dda am ble rydych chi'n byw yn fwy na byw mewn tai o ansawdd da, mae'n ymwneud â'r gymuned rydych chi'n byw ynddi yn cefnogi ei gilydd"

Mae cael cysylltiadau â'r gymuned yn allweddol i les llawer o bobl hŷn; mae unigedd ymhlith pobl hŷn wedi gwaethygu yn sgil pandemig COVID-19.

Mae pobl hŷn yn ystyried bod cael mynediad at gyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol â chymdogion, ffrindiau a theulu yn bwysig iawn o ran cynnal eu hannibyniaeth a'u lles.

Mae cael mynediad da at drafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau cymunedol yn hynod bwysig i bobl hŷn, yn enwedig yn y Fro wledig.

Nid yw llawer o bobl hŷn yn dymuno symud o'u cymuned bresennol maent am aros yn agos at ffrindiau a theulu, hyd yn oed os ydynt yn symud i gartref sy'n fwy addas i'w hanghenion.



"Mewn lleoliadau gwledig mae cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn achubiaeth yn ddiweddarach mewn bywyd"

● Y gefnogaeth sydd ei hangen arnaf



"Rwy'n caru fy nghartref, rwyf wedi byw yma am y rhan fwyaf o fy mywyd. Mae angen cymorth arnaf i wneud rhai newidiadau a fyddai'n golygu y gallwn i barhau i fyw yma cyhyd ag y bo modd."

Mae llawer o bobl hŷn eisïau cymorth i aros yn eu cartref eu hunain cyhyd ag y bo modd. Gall addasiadau gofynnol sy'n cefnogi pobl i aros yn eu lle gynnwys addasiadau i ystafelloedd ymolchi/ystafelloedd gwlyb, rheiliau dal, gwell mynediad fel rampiau, gosod lifftiau grisïau.

Anaml iawn yw symud i gartref gofal y dewis llety a ffefrir. Mae'r mwyafrif o bobl hŷn, os oes angen gofal a chymorth arnynt, yn dymuno derbyn hynny yn eu cartref eu hunain, boed mewn tai prif ffrwd neu lety arbenigol, fel tai gofal ychwanegol.



"Dydw i ddim eisïau symud i rywle sy'n edrych fel ei fod ar gyfer 'pobl hŷn', dwi eisïau byw rhywle sy'n gwneud i mi deimlo'n dda amdanaf fy hun"

Mae'n well gan rai pobl hŷn symud i lety gyda 'dynodiad oedran' ond nid pob un; efallai y byddai mwy o bobl yn ystyried yr opsiwn hwn os yw'n cael ei ystyried yn ddewis ffordd o fyw yn hytrach na symud sy'n gysylltiedig â derbyn gofal/cymorth.

Mae llawer o bobl hŷn eisïau byw mewn cymunedau cymysg ac amrywiol lle gall pobl gefnogi ei gilydd a darparu cefnogaeth anffurfiol. Mae pobl hŷn yn chwilio am well gwybodaeth a chynghor o ran eu hopsiynau tai a chymorth yn ddiweddarach mewn bywyd. Bydd hyn yn helpu pobl i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae technoleg sy'n cefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn bwysig, ond mae mwyafrif y bobl hŷn eisïau hyn ochr yn ochr â chymorth wyneb yn wyneb.

5 Barn a safbwyntiau pobl hŷn a rhanddeiliaid eraill (parhau) Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Ymhlith rhai pobl hŷn, mae angen cymorth a chefnogaeth i wella sgiliau digidol a mynediad, yn enwedig yn y Fro wledig.

■ Safbwyntiau rhanddeiliaid lleol

Nododd ymgysylltiad â rhanddeiliaid lleol y dylai strategaeth tai pobl hŷn:

- Adnabod anghenion tai a chymorth pob person hŷn, nid y rhai ag anghenion gofal yn unig.
- Ystyried anghenion tai pobl hŷn ar draws pob math o ddeiliadaeth, nid tai cymdeithasol yn unig. Mae'r rhan fwyaf o bobl hŷn y Fro yn berchnogion tai sy'n dymuno aros yn eu cartrefi cyhyd â phosibl.
- Hyrwyddo opsiynau tai sy'n fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn amgylcheddol.
- Adlewyrchu gwahanol ofynion tai pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig a threfol yn y Fro.
- Cydnabod nad yw tai yn ymwneud â brics a mortar yn unig ond hefyd â'r cymunedau rydym yn byw ynddynt sy'n adlewyrchu pwysigrwydd cysylltiadau cymdeithasol a chymunedol wrth hyrwyddo lles pobl hŷn.
- Hyrwyddo dewisiadau a gwasanaethau tai sy'n adlewyrchu anghenion a dewisiadau amrywiol pobl hŷn. Mae rhai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn dechrau ystyried sut i adnewyddu eu stoc bresennol, anghenion gwarchod a chyffredinol i'w gwneud yn addas at y diben ac yn uchelgeisiol ar gyfer yr 21ain ganrif.
- Ystyried y model tai gofal ychwanegol mewn ardaloedd gwledig, efallai na fydd datblygiadau ar raddfa fawr yn addas ond gall cynllun llai sy'n gweithredu fel 'hyb' i'r gymuned leol gynnig opsiwn ymarferol.
- Ystyried rôl technoleg i gefnogi annibyniaeth yng ngoleuni'r newid digidol a sut i gryfhau sgiliau digidol a hyder ymhlith pobl hŷn.



6 Galw am dai i bobl hŷn

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Ar hyn o bryd, tai gwarchod a thai oedran dynodedig yw'r mathau mwyaf cyffredin o dai arbenigol i bobl hŷn yn y sector rhentu cymdeithasol. Mae nifer cyfyngedig iawn i dai gyda darpariaeth gofal. Mae darpariaeth tai ymddeol preifat ar hyn o bryd hefyd yn rhoi cymysgedd o ddewisiadau tai ar gyfer gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol. Mae darpariaeth gyfyngedig o dai pobl hŷn yng ngorllewin y Fro.

Fodd bynnag, mae mwyafrif y bobl hŷn y Fro yn berchnogion tai. Dangosir proffil deiliadaeth y boblogaeth hŷn, h.y. dadansoddiad o ddeiliadaeth y boblogaeth 65+ yn y tabl isod.

Tabl 1. Dadansoddiad o ddeiliadaeth y boblogaeth 65+ ym Mro Morgannwg

Deiliadaeth	Nifer yr aelwydydd 65+	Canran cyfanswm yr aelwydydd 65+
Perchentyaeth	12,544	82.5%
Yn cael ei rentu'n gymdeithasol	1,811	11.9%
Rhentu'n breifat	853	5.6%
Pob deiliadaeth	15,208	100%

Ffynhonnell: Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Nomis 2011

Cynhyrchwyd Asesiad o Dai a Llety Pobl Hŷn, gan gynnwys llety gyda Gofal a Gofal Barod gan y RhDG Tai yn 2018⁷. Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2021 ar gyfer Bro Morgannwg yn cydnabod bod y pandemig wedi cael effaith ar y garfan ddemograffig hon ac felly mae angen adolygu'r amcangyfrifon o'r angen am dai i bobl hŷn yn asesiad 2018. Ar gyfer y strategaeth hon rydym wedi adolygu a diweddarau'r amcangyfrifon o'r angen am dai i bobl hŷn.

Dangosir amcangyfrifon meintiol o angen hyd at 2035 ar gyfer tai arbenigol dynodedig ar gyfer oedran, yn dai ymddeol (ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu) a thai â gofal (tai gofal ychwanegol i'w rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu) yn y tablau isod.

Tabl 2. Cyfanswm yr angen a amcangyfrifir: Tai i bobl hŷn: tai ymddeol (ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu) (unedau)

Ardal	Darpariaeth Gyfredol (unedau)	Erbyn 2027	Erbyn 2032	Erbyn 2037
Ganolog	297	367	445	513
Dwyreiniol	445	495	549	598
Gorllewinol	87	140	196	246
Cyfanswm	829	1,002	1,190	1,357

⁷<https://www.cvihs.co.uk/wp-content/uploads/2018/12/An-Assessment-of-Older-Persons-Housing-and-Accommodation-2018.pdf>

6 Galw am dai i bobl hŷn (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Tabl 3. Cyfanswm yr angen **net** a amcangyfrifir: Tai i bobl hŷn: tai ymddeol (ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu) (unedau).

Ardal	Darpariaeth Gyfredol (unedau)	Erbyn 2027	Erbyn 2032	Erbyn 2037
Ganolog	297	70	148	216
Dwyreiniol	445	50	104	153
Gorllewinol	87	53	109	159
Cyfanswm	829	173	361	528

Tabl 4. Cyfanswm yr angen a amcangyfrifir: Tai â gofal: tai gofal ychwanegol (ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu) (unedau).

Ardal	Darpariaeth Gyfredol (unedau)	Erbyn 2027	Erbyn 2032	Erbyn 2037
Ganolog	42	43	95	149
Dwyreiniol	0	39	86	135
Gorllewinol	0	41	88	140
Cyfanswm	42	123	269	425

Tabl 5. Tai â gofal: tai gofal ychwanegol (ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu) (unedau). Tai â gofal: tai gofal ychwanegol (ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu) (unedau).

Ardal	Darpariaeth Gyfredol (unedau)	Erbyn 2027	Erbyn 2032	Erbyn 2037
Ganolog	42	1	53	107
Dwyreiniol	0	39	86	135
Gorllewinol	0	41	88	140
Cyfanswm	42	81	227	382

I grynhoi, mae hyn yn awgrymu amcangyfrif bod angen net am y canlynol:

- Tai ymddeol (ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu): tua 175 o unedau erbyn 2027, gan gynyddu i tua 530 o unedau erbyn 2037.
- Tai â gofal (tai gofal ychwanegol ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu): tua 80 o unedau erbyn 2027, gan gynyddu i tua 380 o unedau erbyn 2037.

Mae tystiolaeth o restr aros ymgeiswyr y Cyngor ar gyfer tai cymdeithasol yn dangos bod 847 o ymgeiswyr ar y rhestr aros ar hyn o bryd sydd â diddordeb mewn eiddo tai gwarchod.

6 Galw am dai i bobl hŷn (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Os caiff y data hwn ei fireinio i hepgor ymgeiswyr sydd wedi bod ar y rhestr aros ers cyn 2019, mae hyn yn dangos bod 742 o ymgeiswyr ar y rhestr aros ar hyn o bryd sydd â diddordeb tybiedig mewn eiddo tai gwarchod.

Mae tuedd i'r dystiolaeth hon gadarnhau'r amcangyfrifon a ragwelir o'r angen am dai ymddeol (sy'n cynnwys yr angen am dai 'gwarchod' ar gyfer rhentu cymdeithasol) a thai â gofal (tai gofal ychwanegol). Fodd bynnag, dylid nodi nad yw hyn o reidrwydd yn golygu bod galw mawr am wasanaethau tai gwarchod presennol, naill ai'r rhai a weithredir gan y cyngor neu gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a allai fod yn anneniadol i lawer o bobl hŷn sy'n chwilio am dai amgen.



7 Casgliadau ac Argymhellion

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Cyd-destun

Mae gan Fro Morgannwg dair ardal: Gorllewin y Fro, Y Fro Ganolog (Y Barri) a Dwyrain y Fro. Mae'r ardaloedd hyn yn adlewyrchu sut mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u darparu ar hyn o bryd gan sefydliadau partner Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg. Er bod gan bob ardal ei nodweddion unigryw ei hun, mae'r canlynol yn gyffredin i'r tair:

- Nifer cynyddol o bobl hŷn.
- Lefelau cymharol uchel o berchnogaeth tai.

Ardal o dwf yw Bro Morgannwg. Bro Morgannwg sydd wedi gweld y twf mwyaf yn y boblogaeth yng Nghymru, yn enwedig ymhlith pobl hŷn. Mae cynlluniau'r Fro dros y blynyddoedd diwethaf wedi helpu i hybu busnesau a gwella byw yn ardaloedd gwledig y sir ac i adfywio ardaloedd fel Y Barri a Phenarth. Ar hyn o bryd mae Bro Morgannwg yn ceisio gwella'r llety a'r tai sydd ar gael i bobl hŷn. Amcan y cyngor yw archwilio tai gwarchod a/neu dai gofal ychwanegol fel modd o alluogi'r model gofal 'Rhyddhau i Asesu', gan awgrymu cynnydd yn yr angen am y mathau hyn o dai⁸.

Mae Bro Morgannwg yn lleoliad rhagorol, mae'n rhan amrywiol a hardd o Gymru. Nodweddir y sir gan ardaloedd cefn gwlad, cymunedau arfordirol, trefi prysur a phentrefi gwledig ond mae hefyd yn cynnwys Maes Awyr Caerdydd, amrywiaeth o ddiwydiant a busnesau a thref fwyaf Cymru sef Y Barri. Mae'r ardal yn elwa ar gysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd da ac mae wedi'i lleoli'n dda yn y rhanbarth fel ardal ar gyfer cyflogaeth fel cyrchfan i ymwelwyr ac fel lle i fyw.

Mae'r adran hon yn nodi gofynion a chyfleoedd ardal gyffredinol Bro Morgannwg a phob un o'r ardaloedd o ran tai a llety i gefnogi pobl hŷn i fyw'n dda yn ddiweddarach mewn bywyd. Sylwch y cyflwynir y rhagdybiaethau ar gyfer amcanestyniadau o angen net amcangyfrifedig yn Atodiad 1.



⁸ Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Strategaeth Gomisynu Caerdydd a Bro Morgannwg: Gwasanaethau Gofal a Chymorth i Bobl Hŷn 2017 - 2022

7 Casgliadau ac Argymhellion (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

■ Casgliadau ac argymhellion

Mae angen ehangu'r ystod o opsiynau tai a llety

Mae'r dystiolaeth o'r asesiad o'r angen am dai a llety i bobl hŷn a thrwy ymgysylltu â phobl hŷn lleol yn dangos bod angen amrywiaeth o opsiynau tai. Mae'r rhain wedi eu crynhoi isod:

- Mae *tai gwarchod/ymddeol* yn cynnig llety hunangynhwysol â meini prawf oedran, a gefnogir fel arfer gan reolwr cynllun rhan-amser/ymweliadol a chymorth brys 24 awr trwy larwm. Yn aml ceir ardaloedd cymunedol a rhai gweithgareddau wedi'u trefnu. Gall fod gyda landlord preifat neu gymdeithasol, i'w brynu neu i'w rentu. *Bydd y cyngor yn adolygu ei wasanaethau tai gwarchod, gan gynnwys ymgynghori â phreswylwyr, i sicrhau bod darpariaeth y cyngor o wasanaethau tai i bobl hŷn yn adlewyrchu safonau cyfoes a fydd yn ddeniadol i drigolion presennol ac yn y dyfodol. Bydd y cyngor yn annog landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lleol i adolygu eu gwasanaethau tai gwarchod.*
- Tai '*gofal barod*' fel arfer yw cartref a all addasu dros amser i ddiwallu anghenion newidiol gan gynnwys lle ar gyfer cymhorthion ac addasiadau. Gall hyn fod yn dai prif ffrwd neu'n dai dynodedig o ran oedran. Trwy ddylunio da, gellir adeiladu cartrefi i fod yn fwy addas ar gyfer gofynion posibl yn y dyfodol fel yr angen am ofalwr dros nos, lle i storio sgwteri symudedd a lle i gadw annibyniaeth. Gall fod gyda landlord preifat neu gymdeithasol, i'w brynu neu i'w rentu. *Bydd y cyngor yn galluogi datblygu tai cyfoes newydd sy'n addas i bobl hŷn ym mhob un o'r tair ardal yn y Fro.*
- Mae *tai gofal ychwanegol* yn fath o 'dai â gofal', na ddylid eu drysu â chartref gofal. Fe'i cynlluniwyd gan feddwl am anghenion pobl sydd â lefelau uwch o ofal a chymorth. Mae cynlluniau tai gofal ychwanegol yn darparu llety hunangynhwysol, cwbl hygyrch gyda mynediad i gymorth gofal domestig a gofal personol 24 awr, cyfleusterau cymunedol ac ystafelloedd gweithgareddau ar y safle. Mae gan fflatiau unigol ystafelloedd ymolchi a cheginau â mynediad gwastad, larymau argyfwng a thechnoleg gynorthwyol arall fel nodweddion safonol. Mae gan y rhan fwyaf o gynlluniau feini prawf cymhwysedd. Yn y Fro,



7 Casgliadau ac Argymhellion (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

mae un cynllun gofal ychwanegol sef Golau Caredig yn y Barri. *Bydd y cyngor yn galluogi datblygu mwy o dai gofal ychwanegol ym mhob un o'r tair ardal yn y Fro.*

- Mae *pentrefi ymddeol* yn cynnig fflatiau neu dai hunangynhwysol gyda chyfleusterau a gweithgareddau cymunedol hygyrch i'w preswylwyr. Mae'r cyfleusterau ar y safle yn amrywio yn dibynnu ar faint y datblygiad ac mae'r darparwr a staff ar y safle 24 awr y dydd. Mae tuedd i bentref ymddeol fod yn fwy o faint a meddu ar fwy o ymdeimlad o 'bentref'. Gall fod gyda landlord preifat neu gymdeithasol, i'w brynu neu i'w rentu. *Bydd y cyngor yn mynd ati i ddatblygu pentref ymddeol/pentref gofal ym Mhenarth.*
- *Ystyr tai prif ffrwd sy'n addas i bobl hŷn* yw cartref nodweddiadol yn y gymuned a allai fod yn fyngalo, tŷ neu fflat. Nid oes unrhyw faen prawf oedran ond ystyriwyd y cynllun fel ei fod yn addas i bobl hŷn. *Bydd y cyngor yn defnyddio polisi cynllunio i annog darparwyr tai preifat a chymdeithasol i ddatblygu amrywiaeth o dai prif ffrwd sy'n addas ac yn ddeniadol i bobl hŷn.*
- *Dylid ystyried opsiynau cydberchenogaeth* fel rhan o'r ystod o opsiynau tai uchod i sicrhau bod ystod o opsiynau fforddiadwy ar gael. Mae gan y Fro ganran uchel o berchnogion tai 65+ oed ond nid oes gan bob perchennog cartref ddigon o ecwiti o werthiant eu tŷ i brynu tŷ ymddeol preifat, nac yn wir tŷ prif ffrwd arall mewn rhai achosion. *Bydd y cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddatblygu ystod o opsiynau deiliadaeth ar gyfer tai newydd i bobl hŷn.*
- Mae darparu *gwybodaeth a chyngor* ynghylch opsiynau tai a chymorth yn golygu bod pobl hŷn yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am yr hyn sydd ei angen arnynt i fyw'n annibynnol a chynllunio eu dyfodol tai. Mae yna nifer o sefydliadau eisoes sy'n darparu gwybodaeth. *Mae'r cyngor wedi ymrwymo i ehangu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ar opsiynau tai ar gyfer pobl hŷn.*

Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain

O ymchwil gyda phobl hŷn sy'n byw yn y Fro, gwyddom y byddai'n well gan lawer o bobl gael cymorth i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref presennol yn hytrach na symud. Felly, blaenoriaeth yw helpu pobl, p'un a ydynt yn berchen ar eu cartref neu'n ei rentu, i fyw'n annibynnol yn eu cartref presennol cyhyd ag y bo modd.

Mae'r cymhorthion a'r addasiadau sydd ar gael yn allweddol i gefnogi pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol gartref yn ddiweddarach mewn bywyd. Efallai y bydd angen mynediad hygyrch, gwastad neu eiddo wedi'i addasu ar unigolion am nifer o resymau, gan gynnwys anabledd corfforol, problemau symudedd a salwch. *Mae'r cyngor wedi ymrwymo i'r camau gweithredu canlynol:*

- Gall cartrefi gael cymorth i wneud newidiadau i'w cartref:
 - Gall aelwydydd preifat gael cymorth i addasu eu cartrefi gan Dîm Tai Sector Preifat y Cyngor, gan gynnwys cymorth gan yr asiantaeth Gofal a Thrwsio leol a chymorth ariannol o ran grantiau.

7 Casgliadau ac Argymhellion (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

- Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Grantiau Addasiadau Ffisegol i alluogi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i addasu cartrefi ar gyfer tenantiaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn y Fro sydd ag angen a nodwyd.

- Mae'r Cyngor yn ariannu addasiadau i eiddo'r Cyngor drwy'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl pan fo angen a nodwyd a phan fo'r gwaith yn rhesymol ac ymarferol. Fel arall, gellir darparu cymorth i nodi cartref addas arall.

- Bydd y Cyngor yn ei rôl galluogi tai strategol yn gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac adeiladwyr tai preifat i ddatblygu cyflenwad o gartrefi newydd wedi'u haddasu, hygyrch a phwrpasol a all ddiwallu anghenion pobl hŷn, gan gynnwys ystod o opsiynau deiliadaeth.
- Bydd y Cyngor yn ymgysylltu â datblygwyr tai i gynnwys tai hygyrch ar ddatblygiadau tai newydd.

Rôl technoleg

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ehangu rôl technoleg wrth gefnogi pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol gartref. Mae'r Strategaeth Ddigidol yn dangos uchelgais y Cyngor i dechnoleg fod wrth wraidd helpu pobl gartref ac yn eu bywydau cymdeithasol. *Mae'r cyngor wedi ymrwymo i'r camau gweithredu canlynol:*

- Bydd y Cyngor yn cymhwyso'r dysgu o Technoleg ar gyfer ein Poblogaeth sy'n Heneiddio: Ymchwiliad y Panel Arloesi 2021⁹ a nododd ddeg egwyddor i'w hystyried wrth adeiladu technoleg i mewn i dai mewn ffordd sy'n gwella bywyd i'n poblogaeth sy'n heneiddio. Mae hyn yn golygu technolegau cefnogi sy'n cael eu cyd-gynhyrchu â phobl hŷn, addasu i anghenion newidiol pobl a gweithio ar draws gwahanol systemau a llwyfannau.

⁸ <https://www.housinglin.org.uk/Topics/type/The-TAPPI-Inquiry-Report-Technology-for-our-Ageing-Population-Panel-for-Innovation-Phase-One/>



7 Casgliadau ac Argymhellion (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

- Er enghraifft, o ran Gwasanaeth Teleofalb y cyngor Tele V+, byddwn yn manteisio ar y cyfle a ddaw yn sgil newid i ddigidol yn 2025 i wella'r ystod o opsiynau teleofal sydd ar gael i bobl hŷn, yn y cartref a'r tu allan drwy ddefnyddio ystod ehangach o offer digidol.
- Bydd y cyngor yn defnyddio technoleg ddigidol gynorthwyol yn fwy drwy'r "Rhyngrwyd Pethau" i roi cymorth i alluogi pobl i aros yn annibynnol yn eu cartref ac atal yr angen am fwy o ymyrraeth. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau digidol a hyder ymhlith pobl hŷn.

Integreiddio iechyd, gofal a thai

Mae'r cyngor yn cydnabod rôl tai o ran diwallu anghenion gofal ac iechyd pobl hŷn. Yn y cyd-destun hwn, *mae'r cyngor wedi ymrwymo i'r camau gweithredu canlynol:*

- Cefnogi datblygiad opsiynau tai ar gyfer pobl hŷn, yn enwedig tai gofal ychwanegol, a fydd yn cefnogi ac yn hwyluso'r gostyngiad disgwylidig yn y defnydd o leoliadau preswyl.
- Cefnogi datblygiad tai, llety ac opsiynau gofal, fel modelau ymddeol a phentrefi gofal, sy'n cydnabod y rhagwelir y bydd yr angen am ddarpariaeth gofal nyrsio yn cynyddu, yn enwedig ar gyfer anghenion gofal dementia.
- Galluogi datblygu ystod o dai sy'n addas i bobl hŷn, i'w rhentu ac i'w gwerthu, a fydd yn cefnogi pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain gyda gofal os oes ei angen arnynt.
- Datblygu rôl tai wrth gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty lle bo'r lleoliad yn briodol. Fel rhan o'r dull hwn byddwn yn adolygu'r defnydd o'r unedau cam i lawr presennol yn y cynllun tai gwarchod yn y Bont-faen.
- Diwallu anghenion mwy cymhleth, fel pobl sy'n byw â dementia neu sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol lluosog, mewn lleoliadau tai, fel tai gofal ychwanegol a phentrefi ymddeol, drwy gydleoli'r mathau hyn o dai â gwasanaethau iechyd a gofal.
- Mae Gorllewin y Fro yn ystyried y cyfle i gydleoli staff iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer cynlluniau tai i bobl hŷn ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Er enghraifft, gallai hyn helpu i wella mynediad at ofal cartref i bobl hŷn yng Ngorllewin y Fro.

Hyrwyddo cysylltiadau cymunedol

LMae ymchwil lleol wedi nodi bod pobl hŷn yn ystyried tai yn fwy na brics a mortar; cartrefi yw tai, maent yn ymwneud â'r bobl sy'n byw ynddynt a'r cymunedau y maent yn rhan ohonynt. *Mae'r cyngor wedi ymrwymo i'r camau gweithredu canlynol:*

Hybiau Cymunedol

Sefydlwyd 'Llunio Llesiant y Dyfodol: Yn Ein Rhaglen Gymunedol' gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn 2016/17. Ei diben oedd datblygu'r rhaglen strategol ar gyfer y seilwaith ffisegol mawr sydd ei angen i gefnogi'r gwaith o wella mynediad at asedau a gwasanaethau cymunedol, gwella deilliannau iechyd, gosod y naws ar gyfer cynhyrchu ar y cyd ac, yn y pen draw, lleihau anghydraddoldebau iechyd.

7 Casgliadau ac Argymhellion (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

O ganlyniad i'r rhaglen, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu cyfres o Hybiau Lles. Y cyntaf arfaethedig yw Hyb Lles Penarth ger Canolfan Hamdden Penarth a fydd yn cefnogi darparu gwasanaethau iechyd a lles i'r trigolion gan gynnwys pobl hŷn yng Nghlwstwr Dwyrain y Fro. Bydd gwasanaethau'n cael eu darparu ar y cyd ar draws sefydliadau i hyrwyddo model gofal cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar les corfforol, meddyliol a chymdeithasol pobl.

Rhagnodi cymdeithasol

Mae rhagnodi cymdeithasol yn fodd o alluogi gweithwyr iechyd proffesiynol i gyfeirio pobl i ystod o wasanaethau lleol, anghlinigol. Daw'r atgyfeiriadau yn gyffredinol, ond nid pob tro, gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal sylfaenol, er enghraifft, meddygon teulu neu nyrsys practis. Mae gan y Fro ystod o raglenni rhagnodi cymdeithasol sy'n ceisio cysylltu pobl â'u cymunedau lleol ac atal ynysigedd a gwella iechyd a lles. *Bydd y Cyngor yn cefnogi ac yn datblygu gwasanaethau rhagnodi cymdeithasol pellach gan gynnwys:*

- Mae'r Siop Iechyd i Bobl Hŷn yn y Barri yn brosiect cymorth cymunedol sy'n darparu gweithgareddau heneiddio'n iach sy'n ymgorffori agweddau ar weithwyr cyswllt, ymarfer corff cymunedol, rhaglenni colli pwysau mewn caffi galw heibio ac yn y gymuned.
- Mae Clwstwr Canol y Fro yn cynnig llwybr atgyfeirio rhagnodi cymdeithasol drwy feddygon teulu neu hunan-atgyfeirio sy'n cynnig un pwynt mynediad i sawl asiantaeth i gael cymorth ag unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â lles.

Dulliau tai cymunedol

Bydd y cyngor yn cefnogi modelau tai sy'n ennyn ymdeimlad o gymuned. Er enghraifft, mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn bartner allweddol wrth ddarparu tai cydweithredol ac mae'n gweithio gyda Chyngor Bro Morgannwg a phartneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i edrych ar ddatblygu opsiynau tai a arweinir gan y gymuned.



7 Casgliadau ac Argymhellion (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Argymhellion: Ardaloedd Lleol

Gorllewin y Fro

Mae ardal gorllewin y Fro yn cynnwys y wardiau canlynol: Saint-y-brid, Llandŵ/Ewenni, Llanilltud Fawr, y Bont-faen, Llanbedr-y-Fro, Sain Tathan, y Rhws a Gwenfô.

Cymeriad

Ardal wledig o'r Fro yn bennaf gan gynnwys trefi marchnad y Bont-faen a Llanilltud Fawr.

Poblogaeth

Y boblogaeth 60+ yw 9,553. Mae'r graff isod yn dangos y boblogaeth a ragwelir o bobl hŷn rhwng 2022 a 2036.

Tabl 6. Amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer ardal gorllewin y Fro (2022-2036) ar gyfer carfan oedran 60+ i 90+.¹⁰

Carfan oedran / blwyddyn a ragwelir	2022	2027	2032	2036
60+	9,553	10,526	11,487	12,111
70+	5,350	5,895	6,433	6,782
80+	213	227	248	261
90+	37	39	43	45

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (canlyniadau cyntaf i Gymru) a StatsCymru

Proffil deiliadaeth y boblogaeth hŷn

Dangosir dadansoddiad deiliadaeth y boblogaeth 65+ isod.

Tabl 7. Dadansoddiad o ddeiliadaeth y boblogaeth 65+ yng Ngorllewin y Fro.

Deiliadaeth	Nifer yr aelwydydd 65+ ¹¹	Canran cyfanswm yr aelwydydd 65+
Perchnogaeth/Cydberchnogaeth	4,296	88.3%
Yn cael ei rentu'n gymdeithasol	279	5.7%
Rhentu'n breifat	292	6.0%
Pob deiliadaeth	4,867	100%

Ffynhonnell: Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Nomis 2011

Datblygiadau

- Yn 2019, cwblhaodd Churchill Retirement Living gynllun byw ar ôl ymddeol De Clare Lodge y Bont-faen yn cynnwys 37 o fflatiau un a dwy ystafell wely i'w gwerthu.

¹⁰ Defnyddiwyd data o ddata cyfrifiad 2021, a Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Strategaeth Gomisiynu Caerdydd a Bro Morgannwg: Gwasanaethau Gofal a Chymorth i Bobl Hŷn 2017 – 2022 - sydd wedi deillio o Amcangyfrifon Poblogaeth Ardal Fach yn 2016 y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016 i gynhyrchu'r amcanestyniadau poblogaeth ar lefel leol.

¹¹ Aelwydydd: 65+HRP – person cyfeirio cartref

7 Casgliadau ac Argymhellion (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Galw yn y Dyfodol

Dangosir yr amcangyfrif o'r galw am dai arbenigol i bobl hŷn yng Ngorllewin y Fro yn y tablau isod.

Tabl 8. Amcangyfrif o'r angen net: Tai i bobl hŷn: tai ymddeol (ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu) (unedau).

Ardal	Darpariaeth Gyfredol (unedau)	2027	2032	2037
Gorllewinol	87	53	109	159

Tabl 9. Amcangyfrif o'r angen net: Tai â gofal: tai gofal ychwanegol (ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu) (unedau).

Ardal	Darpariaeth Gyfredol (unedau)	2027	2032	2037
Gorllewinol	0	41	88	140

Argymhellion ar gyfer datblygu

- Bydd y cyngor yn galluogi datblygu tua 160 o unedau o dai cyfoes newydd sy'n addas i bobl hŷn erbyn 2037, gan gynnwys tai ymddeol 'gofal barod', gan gynnwys cartrefi ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu (yn dibynnu ar leoliad).
- Bydd y cyngor yn galluogi datblygu tua 140 yn fwy o unedau o dai gofal ychwanegol erbyn 2037, gan gynnwys cartrefi ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu (yn dibynnu ar leoliad).
- Bydd y cyngor yn defnyddio polisi cynllunio i annog darparwyr tai preifat a chymdeithasol i ddatblygu amrywiaeth o dai prif ffrwd sy'n addas ac yn ddeniadol i bobl hŷn.



7 Casgliadau ac Argymhellion (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Y Fro Ganolog (Y Barri)

Mae'r Fro Ganolog (Y Barri) yn cynnwys y wardiau canlynol: Dyfan, Gibbonsdown, Court, Cadoc, Illtyd, Buttrills, Baruc a Castleland.

Cymeriad

Ardal drefol gymharol ddwys sy'n cynnwys y Barri, y dref fwyaf yng Nghymru a'r cymdogaethau cyfagos. Mae amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol a diwylliannol a chysylltiadau rheilffordd da â Chaerdydd.

Poblogaeth

Y boblogaeth 60+ yw 6,496. Mae'r graff isod yn dangos y boblogaeth a ragwelir o bobl hŷn rhwng 2022 a 2036.

Tabl 10. Amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer ardal y Fro Ganolog (Y Barri) (2022-2036) ar gyfer carfan oedran 60+ i 90+.¹²

Carfan oedran / blwyddyn a ragwelir	2022	2027	2032	2036
60+	6,496	7,158	7,811	8,236
70+	3,638	4,008	4,374	4,612
80+	168	178	195	205
90+	29	31	34	36

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (canlyniadau cyntaf i Gymru) a StatsCymru

Proffil deiliadaeth y boblogaeth hŷn

Dangosir dadansoddiad deiliadaeth y boblogaeth 65+ isod.

Tabl 11. Dadansoddiad o ddeiliadaeth y boblogaeth 65+ yn y Fro Ganolog (Y Barri).

Deiliadaeth	Nifer yr aelwydydd 65+ ¹¹	Canran cyfanswm yr aelwydydd 65+
Perchnogaeth/Cydberchnogaeth	3,962	74.9%
Yn cael ei rentu'n gymdeithasol	1,047	19.8%
Rhentu'n breifat	280	5.3%
Pob deiliadaeth	5,289	100%

Ffynhonnell: Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Nomis 2011

Datblygiadau

- Mae darpariaeth tai arbenigol i bobl hŷn yn y Barri yn sylweddol fwy nag mewn mannau eraill yn y Fro; mae ar gael yn bennaf ar gyfer rhentu cymdeithasol.
- Yn 2014 datblygodd Cymdeithas Tai Hafod Golau Caredig, cynllun gofal ychwanegol cyntaf Bro Morgannwg yn cynnwys 42 o fflatiau un a dwy ystafell wely ar gyfer rhentu cymdeithasol.

¹² Defnyddiwyd data o ddata cyfrifiad 2021, a Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Strategaeth Gomisiynu Caerdydd a Bro Morgannwg: Gwasanaethau Gofal a Chymorth i Bobl Hŷn 2017 – 2022 - sydd wedi deillio o Amcangyfrifon Poblogaeth Ardal Fach yn 2016 y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016 i gynhyrchu'r amcanestyniadau poblogaeth ar lefel leol.

7 Casgliadau ac Argymhellion (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Galw yn y Dyfodol

Dangosir yr amcangyfrif o'r galw am dai arbenigol i bobl hŷn yn y Fro Ganolog (Y Barri) yn y tablau isod.

Tabl 12. Amcangyfrif o'r angen net: Tai i bobl hŷn: tai ymddeol (ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu) (unedau).

Ardal	Darpariaeth Gyfredol (unedau)	2027	2032	2037
Ganolog	297	70	148	216

Tabl 13. Amcangyfrif o'r angen net: Tai â gofal: tai gofal ychwanegol (ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu) (unedau).

Ardal	Darpariaeth Gyfredol (unedau)	2027	2032	2037
Ganolog	42	1	53	107

Argymhellion ar gyfer datblygu

- Bydd y cyngor yn galluogi datblygu tua 215 o unedau o dai cyfoes newydd sy'n addas i bobl hŷn erbyn 2037, gan gynnwys tai ymddeol 'gofal barod', gan gynnwys cartrefi ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu (yn dibynnu ar leoliad).
- Bydd y cyngor yn galluogi datblygu tua 110 yn fwy o unedau o dai gofal ychwanegol erbyn 2037, gan gynnwys cartrefi ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu (yn dibynnu ar leoliad).
- Bydd y cyngor yn defnyddio polisi cynllunio i annog darparwyr tai preifat a chymdeithasol i ddatblygu amrywiaeth o dai prif ffrwd sy'n addas ac yn ddeniadol i bobl hŷn.



7 Casgliadau ac Argymhellion (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Dwyrain y Fro

Mae ardal Dwyrain y Fro yn cynnwys y wardiau canlynol: Dinas Powys, Sili, Llandochau, Corner-swell, Awstin Sant, Stanwell a Plymouth.

Cymeriad

Ardal sy'n cynnwys ardaloedd gwledig a threfol gan gynnwys Penarth, yr ail dref fwyaf yn y Fro, a chymunedau mwy gwledig Dinas Powys a Sili. Mae amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol a diwylliannol yn yr ardal, wedi'u lleoli ym Mhenarth yn bennaf. Mae gan yr ardal gysylltiadau rheilffordd

Poblogaeth

Y boblogaeth 60+ yw 8,865. Mae'r tabl isod yn dangos y boblogaeth a ragwelir o bobl hŷn rhwng 2022 a 2036.

Tabl 14. Amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer ardal Dwyrain y Fro (2022-2036) ar gyfer carfan oedran 60+ i 90+.¹³

Carfan oedran / blwyddyn a ragwelir	2022	2027	2032	2036
60+	8,865	9,769	10,660	11,239
70+	4,965	5,470	5,970	6,294
80+	259	276	301	317
90+	45	48	52	55

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (canlyniadau cyntaf i Gymru) a StatsCymru

Proffil deiliadaeth y boblogaeth hŷn

Dangosir dadansoddiad deiliadaeth y boblogaeth 65+ isod.

Tabl 15. Dadansoddiad o ddeiliadaeth y boblogaeth 65+ yn Nwyrain y Fro.

Deiliadaeth	Nifer yr aelwydydd 65+ ¹¹	Canran cyfanswm yr aelwydydd 65+
Perchnogaeth/Cydberchnogaeth	4,286	84.8%
Yn cael ei rentu'n gymdeithasol	485	9.6%
Rhentu'n breifat	281	5.6%
Pob deiliadaeth	5,052	100%

Ffynhonnell: Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Nomis 2011

Datblygiadau

- Mae'r cyngor gyda'i bartneriaid GIG a Chymdeithas Tai Wales & West yn bwriadu datblygu pentref pobl hŷn ym Mhenarth i gynnwys cynllun tai gofal ychwanegol i gysylltu â chartref gofal preswyl presennol sy'n eiddo i'r cyngor a chynllun tai gwarchod.

¹³ Defnyddiwyd data o ddata cyfrifiad 2021, a Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Strategaeth Gomisiynu Caerdydd a Bro Morgannwg: Gwasanaethau Gofal a Chymorth i Bobl Hŷn 2017 – 2022 - sydd wedi deillio o Amcangyfrifon Poblogaeth Ardal Fach yn 2016 y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016 i gynhyrchu'r amcanestyniadau poblogaeth ar lefel leol.

7 Casgliadau ac Argymhellion (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hyn 2022-2036

Galw yn y Dyfodol

Dangosir yr amcangyfrif o'r galw am dai arbenigol i bobl hŷn yn Nwyrain y Fro yn y tablau isod.

Tabl 16. Amcangyfrif o'r angen net: Tai i bobl hŷn: tai ymddeol (ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu) (unedau).

Ardal	Darpariaeth Gyfredol (unedau)	2027	2032	2037
Dwyreiniol	445	50	104	153

Tabl 17. Amcangyfrif o'r angen net: Tai â gofal: tai gofal ychwanegol (ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu) (unedau).

Ardal	Darpariaeth Gyfredol (unedau)	2027	2032	2037
Dwyreiniol	0	39	86	135

Argymhellion ar gyfer datblygu

- Bydd y cyngor yn galluogi datblygu tua 155 o unedau o dai cyfoes newydd sy'n addas i bobl hŷn erbyn 2037, gan gynnwys tai ymddeol 'gofal barod', gan gynnwys cartrefi ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu (yn dibynnu ar leoliad).
- Bydd y cyngor yn galluogi datblygu tua 135 yn fwy o unedau o dai gofal ychwanegol erbyn 2037, gan gynnwys cartrefi ar gyfer rhentu cymdeithasol ac i'w gwerthu (yn dibynnu ar leoliad). Bydd rhai o'r cartrefi hyn yn cael eu darparu fel rhan o 'bentref ymddeol' ym Mhenarth, sy'n cyfuno gwasanaethau tai, iechyd a gofal integredig.
- Bydd y cyngor yn defnyddio polisi cynllunio i annog darparwyr tai preifat a chymdeithasol i ddatblygu amrywiaeth o dai prif ffrwd sy'n addas ac yn ddeniadol i bobl hŷn.



8 Cynllun Gweithredu

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Dangosir cynllun gweithredu cryno isod yn seiliedig ar yr argymhellion uchod.

Rhif	Cam Gweithredu	Amserlen	Cyfrifoldeb
1	Bydd y cyngor yn adolygu ei wasanaethau tai gwarchod, gan gynnwys ymgynghori â phreswylwyr, i sicrhau bod darpariaeth y cyngor o wasanaethau tai i bobl hŷn yn adlewyrchu safonau cyfoes a fydd yn ddeniadol i drigolion presennol ac yn y dyfodol. Bydd y cyngor yn annog landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lleol i adolygu eu gwasanaethau tai gwarchod.		
2	Bydd y cyngor yn galluogi datblygu tai cyfoes newydd sy'n addas i bobl hŷn ym mhob un o'r tair ardal yn y Fro.		
3	Bydd y cyngor yn galluogi datblygu mwy o dai gofal ychwanegol ym mhob un o'r tair ardal yn y Fro.		
4	Bydd y cyngor yn mynd ati i ddatblygu pentref ymddeol/pentref gofal ym Mhenarth.		
5	Bydd y cyngor yn defnyddio polisi cynllunio i annog darparwyr tai preifat a chymdeithasol i ddatblygu amrywiaeth o dai prif ffrwd sy'n addas ac yn ddeniadol i bobl hŷn.		
6	Bydd y cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddatblygu ystod o opsiynau deiliadaeth ar gyfer tai newydd i bobl hŷn.		
7	Bydd y cyngor yn ystyried sut i ehangu gwasanaethau gwybodaeth a chynghori dewisiadau tai wedi'u hanelu at bobl hŷn.		
8	Bydd y cyngor yn ystyried sut y gall gynyddu nifer y bobl hŷn y gellir eu cefnogi i wneud addasiadau i'w cartrefi presennol i helpu i gynnal eu hannibyniaeth.		
9	Bydd y Cyngor yn ei rôl galluogi tai strategol yn gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac adeiladwyr tai preifat i ddatblygu cyflenwad o gartrefi newydd wedi'u haddasu, hygyrch a phwrpasol a all ddiwallu anghenion pobl hŷn, gan gynnwys ystod o opsiynau deiliadaeth.		

8 Cynllun Gweithredu (parhau)

Strategaeth Tai Pobl Hŷn 2022-2036

Rhif	Cam Gweithredu	Amserlen	Cyfrifoldeb
10	Bydd y cyngor gyda'i bartneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ystyried opsiynau ar gyfer datblygu tai dan arweiniad y gymuned wedi'u hanelu at bobl hŷn.		
11	Bydd y Cyngor yn manteisio ar y cyfle newid digidol 2025 i wella'r ystod o opsiynau teleofal sydd ar gael i bobl hŷn, y tu mewn a'r tu allan i'w cartref trwy ddefnyddio ystod ehangach o offer digidol.		
12	Bydd y cyngor yn gwneud defnydd pellach o dechnoleg ddigidol gynorthwyol i ddarparu cymorth i alluogi pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi.		
13	Bydd y cyngor yn ceisio datblygu rôl tai wrth gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty lle bo'r lleoliad yn briodol. Fel rhan o'r dull hwn bydd y Cyngor gyda'i bartneriaid GIG yn adolygu'r defnydd o'r unedau cam i lawr presennol yn y cynllun tai gwarchod yn y Bont-faen.		
14	Bydd y Cyngor gyda'i bartneriaid yn y GIG yn ystyried y cyfle i gydleoli staff iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer cynlluniau tai ar gyfer pobl hŷn ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.		
15	Bydd y cyngor yn cefnogi a datblygu gwasanaethau rhagnodi cymdeithasol pellach, a fydd yn cefnogi pobl hŷn sy'n byw mewn tai prif ffrwd a thai arbenigol.		

